Digwyddiadau Asiantaethau Rhanbarthol Bank of England
Hysbysiad Preifatrwydd Rheolaeth
Tachwedd 2018

Gwybodaeth rydym yn ei chasglu

Trwy'r ffurflen hon, neu drwy gais gennych chi drwy e-bost, mae'r Bank of England yn casglu data personol amdanoch chi. Mae'r wybodaeth hon yn cynnwys eich manylion cyswllt proffesiynol ac unrhyw ofynion arbennig ynghylch y ffaith eich bod yn cymryd rhan yn y digwyddiad hwn (fel y'i darperir).

Pam mae arnom angen eich data personol

Rydym yn casglu eich data personol i gynnal, rheoli a chydgysylltu presenoldeb yn y digwyddiad hwn, a darparu mynediad i chi i safle'r digwyddiad yn unol â'r gofynion diogelwch perthnasol.

Mae er ein buddiant cyfreithlon i brosesu eich data personol fel rhan o hyrwyddo dealltwriaeth o rôl unigryw'r Banc, meithrin perthnasoedd gweithio gwell a darparu deunyddiau addysgol i gwmnïau a'r cyhoedd.

Os darparwch unrhyw wybodaeth i ni y gellid ystyried ei bod o gategori arbennig (er enghraifft, gwybodaeth i wneud trefniadau arbennig ar gyfer mynediad i adeiladau), rydym yn prosesu'r data hwn â'ch caniatâd. Gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg trwy e-bostio Agencies-Privacy@bankofengland.gsi.gov.uk.

Yr hyn a wnawn â'ch data personal

Defnyddiwn y wybodaeth i baratoi a chydgysylltu'r digwyddiad, gan gynnwys rheoli mynediad i'r safle. Efallai y byddwn hefyd yn cysylltu â chi ag unrhyw ymholiadau, neu ddiweddariadau ychwanegol am y digwyddiad. Efallai y byddwn yn defnyddio'ch data i'ch gwahodd i ddigwyddiadau yn y dyfodol, ac i asesu a rheoli digwyddiadau yn y dyfodol yn well.

Efallai y bydd eich enw a'ch sefydliad hefyd yn cael eu cynnwys ar restr o fynychwyr y gellir ei dosbarthu i'r cyfranogwyr. Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn â hyn.

Pan fyddwn yn cynnal digwyddiadau ar y cyd â sefydliadau eraill, fel Siambr Fasnach, efallai y byddwn yn rhannu gwybodaeth am bresenoldeb wedi'i chyfyngu i gydgysylltu'r digwyddiad yn unig.

Os bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal mewn lleoliad allanol, bydd eich enw llawn hefyd yn cael ei rannu â'r sefydliad hwnnw er mwyn hwyluso'ch mynediad i'r adeilad. Ar gyfer rhai digwyddiadau, gellir cynnal gwiriadau diogelwch cefndirol hefyd i sicrhau diogelwch mynychwyr y digwyddiad.

Rydym yn defnyddio darparwr trydydd parti, WorldAPP Inc, yn yr Unol Daleithiau, i ddarparu'r offeryn cofrestru ar-lein. Mae WorldAPP Inc yn cymryd rhan, ac wedi ardystio ei gydymffurfiad â, fframwaith preifatrwydd UE-U.D.A. cydnabyddedig. I gael rhagor o

wybodaeth am arferion diogelwch a pholisi preifatrwydd WorldAPP Inc ewch i keysurvey.com/privacy-policy/.

Gellir tynnu ffotograffau yn y digwyddiad, ac wedyn gellir eu defnyddio fel rhan o'n gweithgareddau ymwybyddiaeth. Rhowch wybod i ni os byddai'n well gennych i ni beidio â thynnu'ch ffoto.

Byddwn yn cadw eich data cofrestru am 5 mlynedd o'ch rhyngweithiad diwethaf gyda ni. Byddwn yn cadw ffotograffau am gymaint o amser ag sy'n angenrheidiol i gynnal ein gweithgareddau ymwybyddiaeth parhaus.

Eich hawliau

Mae gennych nifer o hawliau dan ddeddfau diogelu data. Er enghraifft, mae gennych yr hawl i ofyn i ni am gopi o'r data personol mae'r Banc yn eu dal amdanoch chi. Gelwir hyn yn 'Gais Mynediad Pwnc'. Gallwch ofyn i ni newid sut rydym yn prosesu neu'n ymdrin â'ch data personol, ac efallai y bydd gennych yr hawl o dan rai amgylchiadau i ofyn i'ch data personol gael eu diwygio neu eu dileu.

I gysylltu â ni ynghylch yr hawliau hynny, gan gynnwys gwneud cais am y data personol rydym y neu dal amdanoch chi neu i wneud cwyn, gweler ein gwefan yn http://www.bankofengland.co.uk/privacy neu ysgrifennwch atom yn:

The Privacy Team
Bank of England
Threadneedle Street
Llundain
EC2R 8AH

Os nad ydych yn fodlon ar ein hymateb, neu os ydych yn credu ein bod yn prosesu eich data personol heb fod yn unol â'r gyfraith, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO).

Eich hawliau

Gellir cysylltu â Swyddog Diogelu Data y Banc trwy'r manylion uchod a hefyd gallwch gael gwybod rhagor am sut mae'r Banc yn delio â'ch data personol trwy'r ddolen 'Preifatrwydd' ar waelod ein gwefan (www.bankofengland.co.uk).